Cyfrol 2, Rhif 3 Tymor yr Haf 2006

Tîm Cwricwlwm TGCh

Cylchlythyr TGCh

Rhifyn Arbennig Hirddydd Haf!

Ymweliad ag Ysgol Robin Hood

Cynnwys:

- Ymweliad ag Ysgol Robin Hood
- Adnoddau DiDa am ddim
- Animeiddio a Chyfryngau Digidol
- Esbonio'r Llyfrgell Feddalwdd Ddif-finiedig!
- Astudiaeth Achos Fideo-gynadledda
- Cynllun Gwaith TGCh Adnoddau Cymraeg
- Mae Stori i Bob Llun
- Disc Adnodd Sgiliau Allweddol

Cofiwch:

- Rhif Llinell Gymorth: 01792 636900 Desg Wasanaeth am ymholiadau techne-gol
- YGG Bryn Tawe: 01792 560649 Tîm Cwricwlwm TGCh

Daeth y syniad o ymweld ag Ysgol Robin Hood yn Birmingham wrth i mi ddarllen erthygl yn TES Online am ysgol yn Durham a oedd wedi ymweld ag Ysgol Robin Hood ac yn teimlo eu bod bellach yn defnyddio TG mewn ffordd flaengar wrth gyflwyno agweddau ar y cwricwlwm.

> **"Ysgol Gynradd Robin Hood—Ysgol y Dyfodol ar gyfer Plant Heddiw "**

Cysylltais â Maria Boex o GACC ynghylch y syniad gan drafod y gallai'r cynllun peilot newydd 'Bwrsariaethau Grŵp' fod yn addas ar gyfer y prosiect. Felly, ar ôl llenwi'r ffurflenni perthnasol a chyflwyno'r cais, dywedodd CACC fy mod i wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer mynd â fi a dau athro arall o Ysgol Gynradd Sea View Primary School Ysgol Gynradd Robin Hood. Cawsom arian hefyd am lety noson mewn gwesty ac wrth gwrs costau petrol.

Mae datblygu TG yn un o flaenoriaethau'r ysgol (fel y mae i bron pob ysgol yn Abertawe, greda i), ac rydym wedi gweithio'n agos gyda Lindsay Harvey a'i dîm i ddatblygu cynllun gweithredu. Oherwydd y b berthynas weithio agos yma gwahoddwyd Lindsay i fynd gyda ni i Birmingham er mwyn cael ei safbwynt ef.

Disgyblion yn Ysgol Robin Hood yn gweithio mewn ystafell o Apple Macs

O safbwynt TG, roedd yr ysgol yn enghraifft wych. Dangosodd plant Blwyddyn 2 gyflwyniadau PowerPoint i mi yr oeddent wedi'u gwneud ar amrywiaeth o bynciau. Roedd plant Babanod eraill yn gweithio mewn parau ar eu hanimeiddio gan ddefnyddio Apple Macs. Roedd plant Derbyn yn defnyddio synwyryddion metel i chwilio am arian yn y pwll tywod ac yna'n dosbarthu'r arian mewn tybiau yn ôl ei werth. Roedd plant Blwyddyn 1 yn defnyddio peiriant Karaoke i gofnodi eu cyfweliad â chyw iâr (pyped yr oedd plentyn yn ei reoli ac yn ateb drosto). Wrth symud o gwmpas yr ysgol, roeddech yn gweld sut roedd sgiliau'r plant yn datblygu ac roedd eu hyder wrth siarad â chi am yr hyn roedden nhw'n ei wneud a'r meddalwedd roedden nhw'n ei ddefnyddio'n anhygoel. Yn goron ar y cwbl, cafwyd ffilm fer yr oedd grwpiau o ddisgyblion Blwyddyn 6 wedi'i chynhyrchu am eu hysgol. Ffilmiau yr oeddent wedi'u golygu ac wedi ychwanegu cerddoriaeth ac effeithiau sain atynt er mwyn dangos yr ysgol naill ai o safbwynt cadarnhaol neu negyddol.

Yn sicr nid oedd yr ysgol yn berffaith, ond roedd yr agweddau cadarnhaol yn gorbwyso'r negyddol ac mae'r ymweliad wedi rhoi syniad llawer cliriach i mi o'r hyn yr wyf am ei ddatblygu yn Sea View o ran defnyddio TG.

Damien Beech

Dirprwy Bennaeth

Ysgol Gynradd Sea View

Adnoddau DiDA Am Ddim!

Diploma mewn Cymwysiadau Digidol!

Bydd llawer ohonoch yn gwybod am wefan Grid Dysgu'r Gogledd-orllewin www.dida-delivered.org, sef adnodd rhyngweithiol iawn a ddatblygwyd i gefnogi'r cymhwyster DiDA.

Mae'r cynnwys ar-lein ar gael bellach i holl ysgolion y DU am ddim. Rhennir yr adnodd yn bedair prif adran, DiDA Delivered , Student Skills Gym, Teacher Training Materials aAthrawon a 3D Gaming for Units 1 and 4. Anfonwyd yr adnoddau hyn i ysgolion sydd wedi cofrestru ar gyfer yr adnoddau mewn pecyn 4 disc. Mae disc 4 o'r enw 'DiDA Delivered in Moodle' yn cynnwys cyfres o ffeiliau ategu cyrsiau Moodle—un ar gyfer pob modiwl.

Er bod yr adnoddau wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer cefnogi DiDA, mae llawer o adnoddau defnyddiol yno i athrawon, y gellir eu defnyddio i gefnogi cyflwyno TGCh ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4.

Os nad ydych wedi cael copi o 'DiDA Delivered' gallwch gofrestru eich ysgol ar y ddolen gyswllt ganlynol http://www.nwlg.org/projects.htm .

Animeiddio a Chyfryngau Digidol

Gwaith cyfredol ar animeiddio a chyfryngau digidol mewn Ysgolion Cynradd

Yn ystod y flwyddyn academaidd, cynigiodd y Tîm Cwricwlwm TGCh hyfforddiant a oedd yn ymwneud â sawl menter newydd. Y mwyaf poblogaidd ymhlith yr ysgolion cynradd oedd animeiddio a'r cyfryngau digidol. Roedd animeiddio'n arbennig wedi darparu diwrnod HMS llawn hwyl i lawer o athrawon. Adlewyrchwyd gwerth yr hyfforddiant hefyd yn yr ysgolion, gyda disgyblion yn creu animeiddio neilltuol. Gellir gweld detholiad o'r rhain yn Oriel Animeiddio gwefan Dysgu TGCh (www.learn-ict.org.uk/resources/animation/index.asp). Dylid pwysleisio bod llawer o'r animeiddiadau wedi'u creu gan blant Babanod. Mae'r animeiddio wedi amrywio o wneud clai i animeiddio 2-D. Mae llawer o blant ifanc hefyd wedi creu cyflwyniadau animeiddio graffeg drwy ddefnyddio meddalwedd 2animate. Mae'n amlwg bod y profiadau a gafodd athrawon a disgyblion yn cael eu hystyried fel rhai gwerthfawr iawn. Mae'r profiadau wedi treiddio i lawer o feysydd cwricwlaidd eraill a hefyd wedi ychwanegu dimensiwn newydd i linyn cyfathrebu TGCh.

Dylid nodi hefyd bod sawl ysgol wedi cynhyrchu eu cyflwyniad cyfryngau digidol eu hunain. Fel gydag animeiddio, mae cyfryngau digidol yn cynnig profiadau newydd i athrawon a disgyblion. Mae'r meddalwedd Revelation Sight and Sound gan Logotron wedi'i ddefnyddio'n helaeth wrth ddatblygu'r maes yma. Bu prosiect SA1, gyda chefnogaeth Howel Davies, yn llwyddiant ysgubol gan gynnwys sawl ysgol sydd wedi cynhyrchu cyflwyniadau o safon broffesiynol iawn. Bydd y rhain yn cael eu harddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Fel AALl, gallwn ymfalchïo yn y gwaith y mae ysgolion yn ei wneud, lle mae'r profiadau a gynigir mewn llawer o achosion yn mynd y tu hwnt i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Llyfrgell Feddalwedd Ddiffiniol Ar-lein!

http://www.learn-ict.org.uk/materials/dsl/index.htm



Rhestr yw'r Llyfrgell Feddalwedd Ddiffiniol (DSL) o deitlau'r meddalwedd a gefnogir ar gyfer Ysgolion Abertawe. Cyhoeddwyd y teitlau yn Rhifyn y Gwanwyn o Gylchlythyr y Tîm Cwricwlwm TGCh.

Yn dilyn cyfarfod o'r Grŵp CL@SS, awgrymwyd bod angen mwy o fanylion ar gyfer pob teitl, gan ddisgrifio pwrpas pob teitl yn ogystal â'r ystod oed. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau ar gyfer y Rhestr Feddalwedd Argymelledig. Bydd manylion y Rhestr Feddalwedd Hanfodol yn cael eu cwblhau gyda hyn.

Crëwyd y wedudalen sy'n rhoi'r manylion (URL uchod) gan ddefnyddio enghraifft cyn rhyddhau o fframwaith Spry gan Adobe Labs. Gan ddyfynnu Adobe:

Rhagolwg yw'r fframwaith Spry o alluoedd data sy'n galluogi dylunwyr i ymgorfforfi data XML yn eu dogfennau HTML, gan ddefnyddio HTML, CSS, a'r mymryn lleiaf o JavaScript, heb orfod adnewyddu'r dudalen gyfan. Mae fframwaith Spry yn HTML-ganolog, ac yn hawdd ei ddefnyddio i'r rheiny sy'n meddu ar wybodaeth sylfaenol o HTML, CSS a Java Script. Dyluniwyd y fframwaith fel bod yr ychwanegiad yn syml a'r mymryn lleiaf o JavaScript. Gall unrhyw un sy'n awduro ar gyfer y we yn eu teclyn dewisol ddefnyddio fframwaith Spry.

Un o fanteision Spry yw y gellir trin y data heb orfod adnewyddu'r dudalen. Os byddwch yn clicio ar benawdau *Product* a *Category*, bydd y data'n cael eu didoli yn ôl y wyddor A-Z ac i'r gwrthwyneb bob tro y byddwch yn clicio. Os oes gennych unrhyw sylwadau am y dudalen yma, anfonwch hwy at John Mills (john.mills@swansea-edunet.gov.uk).

Mae fideo-gynadledda'n gweithio!

Cynadledda rhwng Bishop Gore ac Ysgol Gynradd y Grange

Digwyddodd 'cysylltiad' diddorol rhwng Bishop Gore ac un o'i ysgolion cynradd partner.

Ar ôl cael y cyfarpar fideo-gynadledda newydd tua diwedd tymor yr haf, aeth Ysgol Esgob Gore ati'n fuan i drefnu sesiwn gydag Ysgol Gynradd y Grange i samplo Fideo-Gynadledda ar fand llydan y sir. Gosodwyd y cysylltiadau angenrheidiol yn fyrsiog gan y tîm technegol er mwyn trefnu'r sesiwn arbrofol gyda'r ysgol gynradd.

Ymunodd disgyblion Bl 5 o ysgolion cynradd yn Abertawe a oedd ar ymweliad â rhai o ddisgyblion blwyddyn 7 a blwyddyn 10 a oedd wedi dod ynghyd i'r ystafell Fideo-Gynadledda ar gyfer sesiwn cwestiwn ac ateb. Yn Ysgol Gynradd y Grange, roedd y Cydlynydd TGCh, Mr Geoff Davies wedi trefnu grŵp o ddisgyblion Bl 5 a Bl 6 gydag arddangosiadau dosbarth byw. Yn ystod y sesiwn, roedd y disgyblion yn gallu cael cipolwg ar y dosbarthiadau, y gwersi a'r trefniadau yn y ddwy ysgol.

Cafwyd cyfnewid syniadau diddorol ar wyddoniaeth: darparodd Grange arddangosiad byw o'u model o gysawd yr haul a gwybodaeth ar eu cronfa ddata ar y planedau sy'n rhan o wefan eu hysgol. Cyflwynodd y disgyblion hŷnbosau mathemategol diddorol a gafodd eu harddangos ar fwrdd gwyn rhyngweithiol yn un o ystafelloedd dosbarth yr ysgol gynradd.

Er y pellter byr mewn gwirionedd - dangosodd y cysylltiad ansawdd y cyfarpar newydd y gellir ei ddefnyddio'n fyd-eang o hyn ymlaen.

Cynllun Gwaith TGCh

Adnoddau Dwyieithog i gefnogi'r Cynllun Gwaith TGCh

Mae'r Cynllun Gwaith TGCh bellach yn cynnwys adnoddau Cymraeg a Saesneg, ac rydym yn y broses o gyfieithu'r cynllun gwaith i'r Gymraeg. Bydd hyn wedi'i orffen erbyn diwedd y tymor ac ar gael o wefan Learn ICT yn ystod gwyliau'r haf (www.learn-ict.org.uk/sow/index.asp).

Bwriadwn erbyn diwedd mis Hydref gynhyrchu clipiau fideos bach i gyd-fynd â'r adnoddau yn y cynllun gwaith. Bydd y clipiau'n cael eu defnyddio i arddangos arfer da wrth ddefnyddio'r adnoddau.

O ran newyddion arall, bydd datblygu adnoddau Cymraeg yn dechrau dros wyliau'r haf. Ein gobaith fydd adeiladu banc mawr o adnoddau rhyngweithiol. Mae croeso i unrhyw gyfraniadau o waith!

Mae Stori i Bob Llun

Cwricwlwm ymatebol, hyblyg a pherthnasol

Mae dysgwyr ifanc heddiw'n gofyn am gwricwlwm sy'n ymatebol, sy'n hyblyg ac sy'n adlewyrchu eu byd. Mae delweddu digidol yn fwy na dim wedi hybu a galluogi TGCh i gefnogi dysgu a datblygu hyder ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r sgrîn fwy y Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol yn hwyluso gwylio a rhyngweithio gan grwpiau mawr a hefyd yn darparu teclyn a gyfer dysgu cydweithredol. Mae arddangos ffotograffau, ynghyd â ffilmiau byr a sioeau sleidiau, yn galluogi plant, staff a rhieni i siarad am eu profiadau a'u rhannu a datblygu arfer da o ran dysgu plant, a chreu cysylltiadau cartref-ysgol gwell oherwydd ei bod mor hawdd rhannu digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd.

Gall delweddau helpu plant i ailadrodd digwyddiadau a'u hannog i siarad am eu profiadau gydag oedolion a'u cyfoedion. Gall plant dynnu lluniau o'r modelau y maent wedi'u hadeiladu, eu diddordebau cyfredol, ymchwiliadau gwyddonol, tripiau ysgol, cynghorddau, ymwelwyr a'r amgylchedd lleol fel rhan o'r drefn arferol. Gallant ddefnyddio delweddau o'r we i greu sioeau sleidiau i gefnogi pynciau hanesyddol ar yr un pryd â datblygu sgiliau llythrennedd, a gallant hyd yn oed greu animeiddiadau byr.

Mae ysgolion yn dechrau creu CDs i'w disgyblion fynd adref â delweddau, sioeau sleidiau, ffilmiau ac animeiddiadau gyda hwy i rannu gyda'u teuluoedd ac mae rhai ysgolion hyd yn oed wedi creu CDs ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 fel cofnod o'u profiadau yn yr ysgol. Rwyf hyd yn oed wedi gweld albwm yn llawn o ffotograffau allan o ffocws a / neu ffotograffau gyda rhannau o'r corff yn ddamweiniol ar goll mewn lleoliad y Blynyddoedd Cynnar, a'r plant yn dda iawn yn dyfalu beth mae'r ffotograff yn ei gynrychioli!

Disg Adnoddau Sgiliau Allweddol

Astudiaethau Achos Sgiliau Allweddol a'r Dogfennau Cysylltiedig

Bydd ysgolion erbyn hyn wedi derbyn copi o fersiwn ddrafft y *Ddisg Adnoddau Sgiliau Allweddol*.

Gan fod y ddisg wedi'i pharatoi yn fformat MS PowerPoint, hwyrach na fydd gan rai ysgolion y cyfleuster i wylio'r cyflwyniad. Os nad yw MS PowerPoint wedi'i osod ar eich cyfrifiadur, gallwch lawrlwytho a gosod Darllenydd PowerPoint am ddim. Gellir ei gael o Wefan Microsoft neu o wefan Learn ICT yn ardal Essential Updates.

Os cewch chi unrhyw anawsterau technegol gyda'r ddisg, gallwch gysylltu ag aelod o'r Tîm Cwricwlwm TGCh.